

Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd
meysydd llên, crefydd a hanes
yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



Carol Plygain gan Mair Eluned Davies

Ganed Mair Eluned Davies ar Lannau Mersi yn 1929, flwyddyn ar ôl i'w thad, James Humphreys, ddod yn weinidog yr eglwys Bresbyteriaidd Gymraeg yn Liscard Road, Seacombe, Wallasey. Un o ragflaenwyr James Humphreys yng nghapel Liscard Road, gyda llaw, oedd Ludwig Lewis, tad Saunders Lewis, a fu'n weinidog yno rhwng 1891 ac 1916; ac yn 61 Falkland Road yn Poulton-cum-Seacombe y ganed Saunders yn 1893.

Un o Rosesmor yn Sir y Fflint oedd James Humphreys (1902–80). Ymddengys fod ei fam, Mary Hooson, yn disgyn o deulu o fwynwyr plwm a symudodd i ogledd-ddwyrain Cymru o Swydd Derby ac o Gernyw, ac roedd hi'n perthyn o bell i'r bardd I. D. Hooson (1880–1948) ac i'r gwleidydd Emlyn Hooson (1925–2012).

Ymhen dwy flynedd wedi geni Mair, ganed ei brawd, Gwilym Esmor Humphreys (1931–2012), a ddiwedodd ei yrfa fel addysgwr yn Gyfarwyddwr Addysg Gwynedd (1983–94). Gwilym Humphreys oedd prifathro cyntaf yr ysgol gyfun Gymraeg gyntaf i'w hagor yn ne Cymru, yn Rhydfelen, yn 1962 – yr un flwyddyn ag y traddododd Saunders Lewis (a oedd yn byw ym Mhenarth erbyn hynny) ei ddarlith radio enwog, 'Tynged yr Iaith'.

Symudodd y teulu o Seacombe i Fae Colwyn, ac yna i Rosllannerchrugog yn 1937, pan ddaeth James Humphreys yn weinidog y Capel Mawr yno. Yna, yn 1946, aeth Mair Humphreys yn fyfyrwraig i Goleg y Brifysgol ym Mangor, i astudio'r Gymraeg yn brif bwnc ac Athroniaeth yn bwnc atodol.

Roedd yr 1940au yn adeg fyrlymus iawn yn hanes y 'Coleg ar y Bryn'. Meddai Islwyn Ffowc Elis am y cyfnod hwnnw yn ei gyfrol o ysgrifau, *Cyn Oeri'r Gwaed*: 'Ac yna, daeth dyddiau Bangor. Ni bu, ac ni bydd eu tebyg.' Merêd (Dr Meredydd Evans) oedd Llywydd y Myfyrwyr ym mlwyddyn gyntaf Mair Humphreys yno – y 'Bangor Bing [Crosby]' fel y'i galwyd gan Dr John Davies yn ei gyfrol ar hanes y BBC yng Nghymru – a dyna'r adeg y byddai Merêd ac aelodau eraill 'Triawd y Coleg' yn serennu ar y rhaglen radio boblogaidd 'Noson Lawen', a ddarlledid gan y BBC o Neuadd y Penrhyn ym Mangor. A chyda llaw, Merêd oedd y 'cwac-cwac' yn y gân hwyliog 'Triawd y Buarth', un o nifer o ganeuon hynod boblogaidd a luniwyd ganddo yn y cyfnod hwnnw.

Roedd yr 1940au yn adeg hefyd o fwrlwm ysbrydol ym Mangor. Ar y Sul, byddai Mair Humphreys yn mynychu'n ffyddlon Gapel Tŵr-gwyn y Presbyteriaid ym Mangor Uchaf, gan gynnwys mynd i ddosbarth ysgol Sul Ambrose Bebb – un o sylfaenwyr Plaid Cymru – yn y prynhawn. Ond daeth tro mawr ar fydd

pan aeth gyda rhai o'i chyd-fyfyrwyr i encil Gristnogol ym Mhlas-y-nant, Betws Garmon, ym mis Ionawr 1948. Dyna'r pryd, meddai, y daeth 'i gredu mewn gwirionedd, [dyna'r] adeg y torrodd y wawr ar fy enaid i ac amryw eraill o'm cyd-fyfyrwyr'. Un o'r rheini oedd ei chyfaill agos, yr Athro R. Geraint Gruffydd, a diddorol ei weld ef, yn y casgliad o'i ysgrifau, *Y Ffordd Gadarn* (2008), yn disgrifio ei brofiad mewn ffordd debyg iawn: 'fe wawriodd y goleuni o'r diwedd', meddai.

Y trobwynt ysbrydol mawr hwnnw fyddai'n llywio bywyd Mair Humphreys byth wedyn. Ond bu trobwynt allweddol arall ym Mangor hefyd, sef cwrrd â myfyriwr o'r enw J. Elwyn Davies (1925–2007) o Gaernarfon. Priodwyd y ddau ym mis Mawrth 1951. Roedd Elwyn Davies erbyn hynny'n weinidog gyda'r Annibynwyr ym Mlaenau Ffestiniog, a dyna ddechrau ar bartneriaeth hir rhyngddynt o ymroi i hyrwyddo'r efengyl Gristnogol yng Nghymru a'r tu hwnt.

Penodwyd Elwyn Davies yn Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf Mudiad Efengylaidd Cymru yn 1955, swydd y bu ynddi tan ei ymddeoliad yn 1990. Tra oedd ef yn y swydd honno, buont yn byw am gyfnodau yn y Bala ac yng Nghwmafan, ond o 1973 ymlaen, ymgartrefent yn 116 Heol Merthyr Mawr, Pen-y-bont ar Ogwr. Y rheswm dros symud yno oedd bod Mudiad Efengylaidd Cymru wedi sefydlu swyddfa a chanolfan gynadledda ym Mryntirion ar gyrion gorllewinol Pen-y-bont yn nechrau'r 1970au – adeilad sylweddol mewn gerddi eang, a fu cyn hynny'n gartref i Ysgol Glyndŵr, yr ysgol breswyl Gymraeg arloesol a sefydlwyd gan Trefor a Gwyneth Morgan yn 1968, ysgol y bu'r bardd mawr, Gerallt Lloyd Owen, yn athro ynddi.

Er mai un o'r Gogledd oedd Mair Eluned Davies, gwelir felly iddi dreulio flynyddoedd lawer ym Mro Morgannwg. Symudodd i Gaerfyrddin yn 1997 ond yna, yn 2017, dychwelodd i'r Fro, gan dreulio ei blynyddoedd olaf mewn cartrefi gofal ym Mhenarth, lle y bu farw yn Ionawr 2023, yn 93 oed.

Gallwn ychwanegu hefyd fod ganddi gysylltiadau agos ag ardal Caerdydd. Roedd ei brawd, Gwilym, yn byw yn Llandaf pan oedd yn brifathro yn Ysgol Rhydfelen, a bu ei chwaer, Ceinwen Elias (1938–2018), yn byw yng Nghaerdydd am flynyddoedd lawer. Ar ben hynny, mae llawer o'i theulu, agos ac estynedig, yn byw yng Nghaerdydd a'r cyffiniau, gan gynnwys ei mab-yng-nghyfraith, John Emyr, a symudodd o'r Gogledd i Gaerdydd pan benodwyd ef yn Olygydd cyntaf Cofnod y Cynulliad Cenedlaethol newydd yn 1999.

Roedd Mair Eluned Davies yn awdures gynhyrchiol iawn, a hynny ar hyd ei bywyd. Yn 2001, cyhoeddwyd

casgliad sylweddol o'i gwaith, *Cerddi ac Ysgrifau*, dan olygyddiaeth John Emyr. Meddai'r Prifardd Idris Reynolds yn ei adolygiad o'r gyfrol honno: 'Trwy gyfrwng y gyfrol hardd hon [...] deuthum i'w hadnabod fel gwraig rinweddol a roes oes o wasanaeth i'w theulu, i'w chyd-ddyn ac i'w Christ. Daw ei phersonoliaeth hawddgar i'r golwg fesul tudalen, ac mae ei ffydd yn Nuw yn sail gadarn i'r gyfrol.' Ac meddai'r Prifardd Gwynn ap Gwilym, 'Gwnaeth tynerwch ac afiaith cerddi Mair Eluned Davies gryn argraff arnaf.'

Yn 2021, golygodd John Emyr lyfryn atodol, *Caniadau*, sy'n cynnwys 35 o gerddi ychwanegol ganddi; ond wedi i Mair Davies farw yn 2023, daeth rhagor o'i cherddi i'r golwg. Yn eu plith, roedd carol plygain a luniodd yn 2007. Gan fod y mesur yn un eithaf anghyfarwydd, fe'i haddaswyd ym mis Tachwedd 2024 fel bod modd ei chanu ar y mesur poblogaidd 'Trymder'. Dyma'r garol yn ei ffurf ddiwygiedig:

Distewch holl gynyrfiadau'r byd,
A'r datgan gwae,
A thrown ein camre at y crud,
Cans yno mae
Y Baban mwyn roes Duw i ni,
A throsto gysgod Calfarî
Oherwydd ein camweddau ni,
Ac E'n ddi-fai.

Fe goncrwyd dychrynfeydd y Fall
Drwy'i eni Ef,
A mawl sy'n esgyn fry'n ddi-ball
I entrych nef.
Fe ddaeth y Mab yn Had y Wraig,
Addawyd gynt i ddryllio'r ddraig,
I'n gosod ninnau ar y graig,
A'n dwyn i dref.

Llawenydd sydd yn nef y nef
Am eni'r Oen;
Mae'n hiachawdwriaeth ynddo Ef,
Drwy'i ddirfawr boen.
Fe gerddodd ar ein daear ni
Heb feddu dim ohoni hi,
Ond bellach Ef yw'n T'wysog fry,
Y Llew llawn hoen.

A phan yn ulw'r elo'r byd,
A'r diwedd fydd
Ar ei ysblander ffals a'i hud,
Pan ddaw y Dydd,
Teyrnasu wna yr Oen bryd hyn,
A'i afael ar Ei blant yn dynn
Trwy'r gwaith gyflawnodd ar y bryn:
Gwaredwr sydd!

Fe gwyd ein Haleliwia fry
I Grist ein Cawr;
Gorfoledd ddaw i'n hysbryd ni
Ar doriad gwawr.
Holl dyrfa'r saint sydd yn gytûn,
A'r cread crwn sydd megis un
Yn moli'r Duwdod yn y dyn –
Ein Ceidwad mawr.

Mair Eluned Davies (1929–2023)

Mae'n garol sy'n gyforiog o lawenydd a gorfoledd oherwydd geni Iesu Grist yn faban ym Methlehem, a'r holl ganlyniadau daionus a buddugoliaethus sy'n deillio o hynny; ac mae'r llawenydd hwnnw'n fwy trawiadol fyth o gofio, fel y dywedodd John Emyr, fod Mair Davies yn un a oedd 'yn gwybod i'r byw beth yw poen a galar'. Ond fel sy'n wir am ein carolau plygain yn gyffredinol, nid yw'n aros yn hir wrth y crud, ond yn symud ymlaen yn gyflym at y groes, er mwyn dathlu'r rheswm dros ddyfodiad y Duw-ddyn i'r byd, sef i fod yn Waredwr ac yn Geidwad. Ac fel y carolau plygain yn gyffredinol, ceir ynddi nifer o adleisiau beiblaidd, a sawl un ohonynt yn cyfeirio at y proffwydoliaethau yn yr Hen Destament am ddyfodiad Crist. Ef, er enghraifft, yw'r 'Had y Wraig' a addawyd yn Genesis 3:15, ac Ef yw'r 'Llew o lwyth Jwda' (Genesis 49:9–10; Datguddiad 5:5–6). Ac fe gawn hefyd, yn null y carolau plygain, y paradocsau rhyfeddaf yn rhedeg trwy'r garol, wrth ystyried fod y baban bach diymadferth yn y crud ar yr un pryd yn Dduw Hollalluog; fod yr Un nad oedd yn meddu dim o'n daear ni, heb le ganddo 'i roddi ei ben i lawr' (Mathew 8:20), ar yr un pryd yn Grëwr ac yn Berchennog y cyfan. Fel y dywedodd yr emynyddes Ann Griffiths mewn llythyr un tro wrth fyfyrion ar Berson y Duw-ddyn: 'Y mae fy meddwl yn boddi gormod i ddweud dim yn chwaneg ar y mater.'